Cyfres Llanbedr | Mawrth, 1929. | Cyf. 29. Rhif 3.

Profwch bob peth: Rhyddid: Gwirionedd: Cariad. Deliwch yr hyn sydd dda

Yr Ymofynnydd.

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Y Golygydd. Y Parch. T. Oswald Williams.

— Cynnwys. —

Darlun—
Capel y Cribin.
Gweinidogion y Cribin.
Hanes Capeli'r Enwad—Cribin.
Mrs. Conwil Evans.
Dalennau o'm Dyddiadur.
Llanw Dant.
Adran yr Ysgol Sul.
Priodas. Marwgofion.
Nodion yr Eglwysi.

Y Gwirionedd a'ch rhyddha chwi.

Argraffwyd gan J D. Lewis Gwasg Gomer Llandysul.

YR YMOFYNNYDD.

Pris 3c. y mis ; drwy y Post, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—Y Parch. T. Oswald Williams, M.A., Lampeter.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. Lewis, Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

YN AWR YN BAROD.

Gyrrwch archeb yn union am

Y LLYFR EMYNAU NEWYDD—

PERLAU MOLIANT

(SOLFFA)

CASGLIAD O EMYNAU A THONAU AT WASANAETH EGLWYSI UNDODAIDD CYMRU.

Prisiau :—

Lledr Hanner Rhwym, 4/6. | Lledr Llawn Rhwym, 5/6.

Lledr Morocco ac India Paper, 7/-.

Cludiad copiau unigol, 6ch. yn ychwanegol.

Derbynir archebion (*gyda blaendal*) oddiwrth Eglwysi a phersonau unigol yn awr. Anfoner at—

J. D. LEWIS, SWYDDFA'R 'YMOFYNNYDD,' LLANDYSUL.

CHANNING HOUSE SCHOOL

HIGHGATE, LONDON, N.6.

Public School for Girls.

For Particulars apply to THE HEAD MISTRESS.

T. E. Jones, & Co.

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers and Provender Millers, Merchants, Wholesale Grocers, etc.

Yr Ymofynnydd.

- - Cylchgrawn Misol - -

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.

Cyfres Llanbedr. MAWRTH, 1929. Cyf. XXIX. Rhif 3.



CAPEL Y CRIBIN.

Rhestr o Weinidogion y Cribin.

Evan Davies, Cae'ronnen 1790—1815.

David Davies, Maesypwll 1815—1819.

Arthur Williams (yn y Coleg 1791—1794)—

John Jeremy 1819—1822.

Thos. Griffiths 1822—1841.

Daniel Evans 1841—1842 ?

William Rees, Cwmwrdu } yn achlysurol.
Evan Lewis }

Thomas Emlyn Thomas 1842—1846.

Thomas Griffiths 1846—1848.

John Jeremy —1848—

Peter Joseph 1848—1852/3.

David Evans, B.A.
Thos. Griffiths o 1855
Rees Davies 1857
Thomas Thomas 1857—8
} 1853—1857. (Supplies).

Thos. Griffiths 1857—1868

Rees Cribin Jones 1868—1877.

David Evans, B.A. 1877—1882.

William Eynon Davies 1882—1886.

David Evans 1886—1928 (?)

WEDI EU CODI YNG NGHRIBIN.

Evan Jones (1796—1858 aeth i'r Amerig—?).

Reuben Davies (1808—1833).

John David Jones, Glynllwyd (1861—1886).

J. Islan Jones, M.A. (Llywydd y Gymdeithas 1928/9).

Hanes Capeli'r Enwad yn Sir Aberteifi.

III.—CRIBIN.

CANGEN arall o hen Eglwys Caer'onnen ond odid ydyw Capel y Cribin ac yn tarddu felly o hen Eglwys Sir Aberteifi a grynhowyd gan y Parch. Rice neu Rees Powell ficer Llanbedr yng nghyfnod y Werinlywodraeth a'r Adferu. Ni wn i mo hanes y braenaru yn yr ardal a'r hanes cyntaf a geir yw hanes codi y capel cyntaf yng Nghribin yn 1790. Yn aml ceir traddodiad niwlog, ond yma fe geir ffaith mewn hanes a rhwyddach ydyw gwau traddodiad am yr hanes na cheisio cychwyn ynghanol y niwl. Rhof y ffynonhellau cyn awgrymu dim. Yn 1818 cyhoeddwyd yng Nghaerfyrddin,—

"*Marwnad er coffadwriaeth am y Parch. Evan Davies, gynt Gweinidog yr Efengyl yn Kilgwyn, Caeronnen a'r CRIBYN ; yr hwn a ymadawodd a'r byd hwn y 12fed o Chwef.* 1817 *gwedi bod yn llafurus yn ngwaith y weinidogaeth am* 40 *mlynedd yn* 66 *oed.* * * * * *Gan D. Davies Kilgwyn.*"

Yn llawysgrif Evan Lewis y Cilgwyn (M.S. 2170 B.) ceir,—

"*Y nesaf a ddaw o dan ein sylw ydoedd fab i'r Parch. Timothy Davies—y Parch. Evan Davies, y trydydd weithian o'r enw. Ganwyd hwn yn* 1752 *ac ordeiniwyd yn y Cilgwyn yn lled fuan ar ol marw ei dad a pharhaodd i weinidogaethu hyd ei farw yn* 1817. *Gwasanaethodd ef y Cilgwyn, Caeronnen a'r Cribin ynghylch* 46 *o flynyddau*"

Dywed Dr. William Davies, Ffrwdyfâl mewn erthygl yn y Drysorfa Gynnulleidfaol, Gorff. 1849, Rhif 79, Cyf. VII,—

"*Trwy gyd-lafur y Parch. D. Davis, Castellhywel ac Evan Davies, Cwmbedw y ffurfiwyd eglwys yn y Cribin ac adeiladwyd addoldy yno yn* 1790."

Ysgrifennai y Prifathro W. J. Evans, M.A., yntau yn disgyn o ail-wraig y Parch. Evan Davies, Cwmbedw,—

"*In* 1790 *he* (*E.D.*) *was instrumental in establishing a church at Cribin where he appears to have officiated regularly up to within a year or two of his death.*"

Er cloi'r peth canfu y Parch. Geo. Eyre Evans yng nghofnodion y Quarter Sessions a ganlyn,—

"*Michaelmas* 1791. *On the motion of Mr. Lewis Rogers, ordered that a certain house called Cribin Bettws in the parish of Llanfihangel Ystrad be registered as a meeting house for the congregation of Protestant Dissenters.*"

Ond y llawysgrif fwyaf diddorol ydyw eiddo Tau Gimel, y sydd ym meddiant y Parch. David Evans, Cwmiago, yntau wedi ei chael ond odid ymhlith papurau Dewi Hefin a theg ydyw ei rhoi yma fel y'i cefais ganddo.

"*Cribyn Chapel. The old chapel of Cribyn was built in the year* 1790, *chiefly of mud and compost, thatched with straw. Several persons assisted in the erection of the same and of those the following persons bore a conspicuous part: Thomas Beynon, Esq., Penybryn: Miss Mary Beynon, afterwards Mrs Jones, Penybryn: Abel Jones, Rhydygwin: Howel Davies, Caerfoel: Evan Evans, Cwmynach: Thomas Morgan, Cwmiago: Evan Evans, Llysfaen, Father of the present J. Evans, Esq., Court Farm and Rev. Evans Vicar of Llancwnlle is a grandson (of) proprietor: Thomas Davies, Capel St. Silin Mill: Sam Evans Griffiths, Penylon: Rev. Evan Davies, Cwmbedw Cellan: Thos. Morgan, Caehir: John Lewis, Tyddyndu, grandfather of present* (1868): *John Davies, Pantmarchog (afterwards Nantremenin): David Davies, Moyddyn: Mary Jenkins, Fronddu: Shon Shenkin Capel a very poor man* 1/-: *Thomas Jenkins, Rhydybene: Jenkin Jenkins, son do.: Evan Abel Jones now Rhydygwin* 5/- *with the Tablet on the front and many other services: Lewis Lewis, Penylan: John Daniel Cooper, Mydroilyn. The party agreed with Mr. Lewis Lewis of Penlan to build the Chapel for* £15, *but he afterwards re-tracted unless he would be assisted to convey the Timber from Rhiwson Wood which was complied with. Agreed with Howel Davies, Carfol for* 15/- *to build the pulpit, but the stones under the same were conveyed by Evan Abel Jones of Rhydygwin from Greengrove Quarry. Many others assisted in the building of the Chapel whose names are at present forgotten.*

The present new Chapel was built in the year 1851 *at the expense of the neighbourhood of Cribin and of the members. D. M. Douglas, Esq., M.R.C.S., of Rhydyfran and Daniel Williams of Capel St. Silin who died* ** 1857 *with others were conspicuously interested in the building and the proprietor D. Evans of Llaethliw Esq. now deceased gave the slates. It was soon out of debt.*

The following ministers were engaged in the old and new chapels— 1. *Revd. Evan Davies, Cwmbedw Died* 1818. *The Rev. Griffith Griffiths of Llechryd preached at funeral to a large concourse of people* (*Heb. xiii*, 7). *The said G. Griffiths died the same year. No tombe nor stone mark the spot where Mr. Davies lies at Cellan Church. Shame to rich relatives!* 2. *Rev. A. Williams, Lampeter occasionally. He died at an advanced age and was buried at Lampeter.* 3. *Rev. D. Davies of Maesypwll afterwards Llechryd. He died at Llanelly in* 1857, *but not a minister.* 4. *Rev. J. Jeremy of Lampeter, etc., an aged and highly respected minister now living* (*in* 1857). (*Died* 1860). 5. *Revd. T. Emlyn Thomas of Troedyraur. He died greatly and deservedly respected in the bloom of life about the year* 1847 *of a rapid and deep* (?) *decline. Revd. J. Davies, Llwyn and Revd. Mr. Jones of Glynarthen, Independent Minister and Rev. Thomas Griffiths, Cribin preached in the open air at his funeral.* 6. *Revd. D. Evans, Castellhywel, grandson to the highly respected Bard the Revd. D. Davis of Castellhywel. He is now living, as minister of Galltyblacca and Caeronnen.* 7. *Revd. Peter Joseph afterwards co-minister of Llwynrhydowen, etc. with the Revd. J. Davies. He died deservedly lamented from a kick from his horse before the door of his father's dwelling house in* 1857. *He was buried at Llwynrhydowen Chapel yard. Dr. Lloyd officiated. He was decidedly one of the most useful ministers in the order and the churches have sustained a great loss after him.* 8. *Revd. E. Lewis, Cilgwyn, occasionally.* 9. *Revd. W. Rees, Llwynolau, etc. He died at an advanced age. He was of a very harmless and unostentatious disposition and a good moral preacher.* 10. *Rev. Thos. Griffiths, present minister.*

* * *

(Continued in Dewi Hefin's handwriting). *Died* (?) *and was buried at Alltyplaca, a very able preacher.* 11. *Rev. Rees C. Jones from Feb.* 1868 *to Aug.* 1877. *He having other churches* (*Lampeter and Caeronen*) *in charge resigned in Aug. David Thomas, C.M. and Dd. Glaswalch Jones preached occasionally.* 12. *Revd. Dd. Evans, B.A., Maesymeillion took charge of the church Sept.*2/77."

Y mae awgrym y Dr. William Davies, Ffrwdyfal fod llaw gan Ddafis Castellhywel yn sefydlu achos yn y Cribin yn ddiddorol. Yr oedd yn weinidog Alltyblaca a Chiliau a gwyddys am ei lwybr o Alltyplaca i'r Ciliau cyn cyfarfod a Daniel Ddu, ond dyma'r unig awgrym o'r peth y gwn i amdano. Yr oedd cysylltiad agos rhwng gweinidogion y Llwyn a gweinidogion Caeronnen yn fore. Ceir yn nyddlyfr Timothy Davies "My sister Jane Davies of Bayliau departed this life July 9th (8th mewn man arall) 1761 * * Mr. Da: Lloyd preached from Job." Nid oes angen atgofio'r

darllenwyr am y rhwyg yng Nghilgwyn oherwydd pregethu o Da : Lloyd yno. Wedi marw o Dimothy Davies yn 1771 mynnodd aelod blaenllaw yng Nghilgwyn a char i Ddavid Lloyd ei gael yno ar Sul Cymundeb ac ymadawodd 50 aelod i ffurfio Eglwys Ebenezer Llangybi yn 1772.

(Carwn wybod hefyd ar ba awdurdod y dywed G.E.E. yn Lampeter td. 81, "He (Evan Davies, brawd Timothy Davies) is said to have been at one time an assistant to the Rev. Philip Pugh, and to have taught in the flourishing school kept for many years at Cribyn).

Ar y dydd cyntaf o Ragfyr 1779 bedyddiodd Evan Davies, Cwmbedw, Timothy ail fab Dafis Castellhywel yn y Plasbach Ciliau. Nid oedd felly yn amhosibl fod llaw gan Ddafis Castellhywel yn arloesi'r ffordd yng Nghribin. Ni wyddom nemor ddim am gysylltiad gweinidogion Caeronnen a'r Cribin ar wahan i'r ffaith y gwyddom gyda sicrwydd fod Evan Davies, Cwmbedw wedi gweinidogaethu yn y Cribin a bod ei enw yn llawysgrif Tau Gimel (1857—1868) fel un wedi cynorthwyo gyda chodi'r capel Cyntaf yn 1790.

Yn nyddlyfr Timothy Davies ceir y bedyddiadau hyn :—

"1749. 28 March, David Howel, Carvoel, Ystrad.
16, July, David Evan John, Bwlch, Dyhewyd."

Y mae Carvoel yn ddigon agos a medrir clymu'r bedydd hwn hwyrach a theulu Howel Davies, Caerfoel a wnaeth bulpud y Capel Cyntaf am 15 swllt. Y mae'r bedydd arall yn ddiddorol hefyd oherwydd yn rhestr J. H. Davies, M.A., Cwrtmawr o Freeholders Cardiganshire yn 1760 (West Wales Historical Records, Vol. III., 1913) fe geir ym mhlwyf Dihewid (Moythin Hundred),— "Evan John, Bwlch, Dihewid," yn berchen ar ei le ac yn byw ynddo.

(Gyda llaw yn yr un rhestr fe geir Thomas Thomas yn byw ac yn berchen ar Benybryn ond erbyn 1790 Thomas Beynon, Esq., oedd yn byw yno. O fynd trwy'r rhestr fe welir ym mhlwyf Henfenyw, "Thomas Beynon, Lleithliw," ac fe geir yr esboniad o gofio i Ddavid Evans, Lleithliw roi'r llechi i'r Capel a godwyd yn 1851. Diddorol olrhain y cysylltiadau oherwydd fe geir Thomas, Llanfair, a fu farw tua 1863 yn ymbriodi a "Mary, dau. of John Evans, of Court, by Mary, dau. of — Beynon, of Llaethliw, Card." Mab i'r ddau hyn oedd Dd. Thomas, Llanfair, a fu farw yn 1882— efe a roes ddaear y capel yn rhydd am byth i'r gynulleidfa pan

werthodd yr ystad yn 1875. Y mae'n ddiddorol i mi o leiaf am fod gennyf rai o'i dylwyth ar fy aelwyd).

Nid yw hynyna ond awgrym o lwybr i chwilotwr. Try'r hanes ar Evan Davies, Cwmbedw. Llwyddodd y blaid galfinaidd i rwystro Da : Lloyd i bregethu yng Nghilgwyn ond yn ystod gweinidogaeth Evan Davies, Cwmbedw, mynnodd y blaid ryddfrydig rwystro Thomas Jones, Ffaldybrenin i bregethu yng Nghaeronnen tua 1811, ac nid oedd sefydlu Capel y Cribin ond yr hen gynulleidfaoedd Ariaidd yn dechreu teimlo rhyw gynnwrf yn y gwersyll—teimlo ysbryd y deffro a welwyd ar fyr yn ymgorffoli ym Mhantydefaid, Capelygroes ac Ystrad (Rhydygwin wedi hyn). Rhyw sel genhadol yw'r esboniad cyn cofleidio'r golau newydd a cheir enw Thomas Jenkins, Rhydybennau yn cynorthwyo gyda chodi Capel Cribin yn 1790 yn un o'r 49 tanysgrifwyr cyntaf i'r Gymdeithas Undodaidd yng Nghymru a ymgorffolodd yn y flwyddyn 1802 mewn cyfarfod gerllaw Castellnedd (Rheoleu a Threfniadau Cymdeithas Dwyfundodiaid yn neheubarth Cymru * * * Llundain, Biggs a Chottle, 1803). Gŵyr y neb a ŵyr hanes y cyfnod fod hanner olaf y ddeunawfed ganrif yn ffrwydro gan syniadau newydd—syniadau newydd am ryddid mewn byd ac eglwys a dyma gyfnod y chwyldro Ffrengig a theimlwyd y gwewyr yng Ngheredigion fynyddig a phell. Caraf i synio am gapel y Cribin fel wedi dod megis gyda blaen y llanw ond wedi tarddu o'r hen gyff Presbyteraidd, y syniadau newydd wedi impio megis ar yr hen foncyff.

Tawel fu ei hanes ar y dechreu ac nid oes le i gredu i Gribin fywhau gyda'r deffroad Undodaidd ond yn hytrach iddo ymgaledu gan edrych yn gilwgus am yn agos i hanner canrif o leiaf ar y mudiad newydd. Nid oes son am dano yn hanes taith genhadol Lyons yn 1811, ac er fod Wright yn 1816 yn son am Lwynrhydowen, Penrhiw, Ciliau, Alltyblacca a Llechryd nid enwir Caeronnen na Chribin. Yn 1830 (gwel Inquirer, Feb. 27, 1897) amcanwyd "An early Census of Unitarian Congregations and Worshippers circa 1830" a cheir yno "Cribin, Thos Griffiths, 100—200"; a saif y ddeurif dros nifer y gwrandawyr ond odid.

Erbyn 1851 yr oedd angen capel newydd yn y Cribin oherwydd malurio o'r hen welydd pridd, a dywed Timothy Davies, Evesham, mewn llythyr at James Thomas, Llwynrhydowen, Medi 21, 1852, "Rwy'n falch fod ganddynt gapel newydd yn y Cribin. Yr oedd yn waeth na hen ysgubor pan bregethais i yno ddiweddaf." Yn 1887—8 fe'i hadnewyddwyd a hynny yn nechreu tymor gweinidogaeth y Parch. David Evans, Cwmiago, y sydd yn aros mor ieuanc ei ysbryd ag erioed. Nid oes raid i mi ond rhoi ychydig nodiadau ar y rhestr o weinidogion gan gymryd eiddo Tau Gimel er ei chyfanu.

Dywed yn bendant na fu David Davies. Maesypwll yn weinidog yma a hwyrach ei fod yn iawn ond gwyddys i'r Parch. Evan Davies ymddiswyddo o'r Cilgwyn yn 1815 yn ffafr ei frawdynghyfraith a sicr iddo hefyd bregethu'n aml aml yn y Cribin oherwydd gwyddom i Evan Davies roi i fyny pregethu yn y Cribin flwyddyn neu ddwy cyn ei farw yn 1817 ac ni ddaeth John Jeremy yn weinidog yma dan 1819 ac yr oedd D. Davies y Cilgwyn yn arwyddo'r alwad. P'un a'i fel gweinidog a'i peidio, credaf mai D. Davies oedd yn pregethu amlaf yn y Cribin o 1815 dan 1819. Ni cheir yn ei restr son am y Parch. Daniel Evans. Gwehydd ydoedd o Bontcych, Cilrhedyn, lle bu'n cynorthwyo y Parch. William Rees ym Mhenrhiw. Yn Hydref 1827 pregethai mewn Cwrdd Chwarter yn y Cribin a cheir iddo gael *grant* oddiwrth y Bwrdd Presbyteraidd yn 1834, 1838 ac 1841. Symudodd i Ddyffryn Aeron gan ymaelodi yng Nghiliau. Ar ymadawiad Thos. Griffiths yn 1841 daeth Daniel Evans yn olynydd iddo. Ar fyr ymgymerodd a phregethu yng Ngogledd Cymru ond ar ei ddychweliad ymaelododd yn Neuaddlwyd. (Awgrymai R.J.J. mewn llawysgrif mai nid golau newydd ond *bywyd newydd* oedd achos y troi.) Bu farw yn 1842 (yn ol y Proff. D. L. Evans. G.E.E.).

Gedy Tau Gimel y broblem fwyaf anodd heb ei chyffwrdd—problem bywyd Tau Gimel ei hun. Bu'n weinidog y tro cyntaf yng Nghribin o 1822 (caiff grant y Bwrdd Pres. am Gribin ar Dach 22, 1822) hyd 1841 pan *ddywedir* iddo ymadael am yr Amerig. Pregethai yng Nghaeronnen Ebrill 25, 1841, ond ni cheir son am ei enw yma wedyn dan Fawrth 29, 1846. Yr wyf am gymryd y blynyddoedd yng Nghaeronnen er gweld gyrfa Griffiths a rhof rif y gwasanaethau yng Nghaeronnen bob blwyddyn a sawl gwaith y bu Griffiths yn gwasanaethu yma oherwydd y mae eisiau dadrys y broblem am ei bod yn ymwneud a Chaeronnen, Cribin a'r Ciliau. 1846 (65 o weithiau ; T.G. 12 gwaith). 1847 (62 ; T.G. 41). 1848 (56 ; T.G. 40). 1849 (73 ; T.G. 62). 1850 (68 ; T.G. 55). 1851 (62 ; T.G. 17 hyd Orffennaf 28). Ni cheir cofnod am dano wedyn dan Chwef. 25, 1855. Ni phregetha ond yr un tro hwn hyd Dachwedd y 15 ac ar y dydd hwn telir iddo £5/16/0, ac yna pregetha'n achlysurol rhyw bedair neu bum gwaith y flwyddyn mwy neu lai dan 1869.

Yr oedd yn weinidog yn y Cribin a'r Ciliau 1846—1848. Caeronnen 1846—1851. Pan ddaw'n ol o'i grwydriadau yn 1855 nid oes weinidog yn y Cribin a Pheter Joseph wedi ymadael yn 1852/3. Credaf fy hun fod Tau Gimel wedi manteisio ar y cyfle i bregethu gydag eraill yn achlysurol yn y Cribin oherwydd yn 1857 y mae'n weinidog y drydedd waith yno ac yn gofalu am Gribin dan 1868. Yn ystod y cyfnod rhwng ymadael o Beter Joseph yn 1852/3 hyd

dyfod Griffiths yn 1857, credaf i'r Parch. David Evans, B.A., gynorthwyo a cheir cofnodion yn yr YMOFYNNYDD 1895 (ar y wrapper) ac yn yr Unitarian Almanack, 1858, am y Parchn. Rees Davies a Thomas Thomas yn gwasanaethu yma. Nid oes fawr coel ar yr Unit. Almanack oherwydd enwa Thos. Griffiths fel gweinidog yn 1853 ond y mae'n sier nad oedd Griffiths wedi bod yn agos ers dwy flynedd o leiaf.

Y mae un peth arall yn amwys yn rhestr Tau Gimel oherwydd dywed fod y Parch. Evan Lewis, Cilgwyn yn pregethu yma'n achlysurol. Er fod Tau Gimel yn byw yn y cyfnod ac yn bugeilio'r eglwysi, y mae'n amheus iawn gennyf a ydyw yn ddiogel ei ddilyn. Yr oedd yna Evan Lewis arall fel y sylwais dan Gaeronnen yn weinidog Ystrad 1824—5, yn cadw ysgol yng Nghaerfyrddin 1826—31, ac am y ddwy flynedd nesaf yn Ystrad. (Gyda llaw diddorol ydyw M.S. 4. 203 Cardiff Free Library: "Cribin School. The Revs. Rees Davies and J. Jones intend to open a Class. Com. and Math. School at Cribin on Monday, 10 October, 1831.")

Wedi i Rees Davies roi i fyny ymhen rhyw ddwy flynedd mwy neu lai, fe'i dilynwyd yng Nghribin gan Evan Lewis. Yr oedd yma yn 1843 ac yn ymbriodi a Miss Rachel Evans. Yn 1848—51 yr oedd yn weinidog ym Mlaengwrach. (Yr oedd Evan Lewis yn bresennol yng Nghwrdd Chwarter ym Mhantydefaid yn 1847 (YMOF. td. 69) ac yn dlawd iawn a Thau Gimel yn dwyn ei achos gerbron y gweinidogion).

Gwell gennyf i gredu mai Evan Lewis, Llanwnen a fu'n cynorthwyo yma. Gŵyr y neb a gymerth ddiddordeb yng Nghapel y Cribin am Hanes Capel y Cribin gan y Parch. Islan Jones ac y mae'i hanes o'r hen deulnoedd yn ddiddorol. (Gwel YMOF. 1916—17).

Y mae Cribin unwaith eto heb weinidog ond gobeithio fod ganddi ddigon o afael ar yr egwyddorion i'w dwyn drwy'r cyfnod o bryder ac anesmwythyd i gyfnod disgleiriach na dim a fu yn ei hanes eto.

O.

Mrs. Conwil Evans.

PAIR ambell ddigwyddiad i ddyn dewi. Nid yw am ddweyd yr un gair ond carai wasgu llaw cyfaill a hwnnw'n deall iaith hyotlach na geiriau ambell dro. Dyna 'nheimlad innau heddiw o feddwl am symud Mrs. Conwil Evans heb ond ychydig oriau o gystudd—ymhell o'i chartref ac eto yn ei hen gartref a charwn ddweyd wrth ei phriod a Betty "Yr ym yn rhwym gyda chwi."

Y mae'n hawdd hwyrach i bregethwr—i mi neu yntau geisio cysuro arall ond beth amdani yn nydd yr ystorm a'r cysurwr ei hun yn unig, ac amddifad fach yn wylo am ei mam. Na ato Duw i mi gael y profiad. Gwn ddigon i gydymdeimlo o waelod calon.

Nid yw ond megis ddoe pan ddaeth i'n bro. Cofiaf glywed am ei dyfod ond heb ei gweld ac un dydd cyfarfum a mam ieuanc a geneth fach dan goron o wallt modrwyog. Rywsut ni chawn lonydd gan y meddwl mai hyhi ydoedd ac mewn ardal wledig a dieithr iddi hi daethom i adnabod ein gilydd. Yr oedd mor syml a siriol, mor agos a charuaidd. Yr oedd rhywbeth yn anghyffredin ynddi nes peri i chwi deimlo fod calon fawr a diddig yn curo yn ei mynwes. Suddodd yn ei gwaith ac mewn defnyddioldeb yn ddwfn i galon ardal. Eweh drwy'r fro heddiw. Y mae pob llygad yn gloywi wrth son amdani, a'r ardal yn teimlo fod gwraig fonheddig yng ngwir ystyr y gair wedi cerdded i'w bedd. Ni chawn i ond cip yn awr ac yn y man ar aelwyd yr Henllys, a dwy flynedd yn ol ni welid teulu hapusach. Yn mis Mai y flwyddyn honno, *a hawdd ei gofio*, daeth angau i'r aelwyd gan ei tharo a symud Iris fach ar fyr rybudd. Ni chredaf i'r fam fod yr un byth wedyn. Chwareai'r wen fel cynt ond yr oedd rhyw dristwch dani. Yr oedd y galon gysurus yn aros ond fod deigryn a hiraeth drwyddi. Sieryd yr ysbrydegwr am y Psychic Rod. Ni wn i ond credaf fod enaid Mrs. Evans wedi clymu dynned am Iris—yr oedd y *psychic rod* fel pe tae mor dynn fel nad oedd dim amdani oherwydd methu ohoni laesu'r straen ond torri. Torrodd. Do, ar amrantiad. Gorwedd Iris yn Rhydygwin a'r fam yn Rhyl. Ba wahaniaeth! Y maent gyda'i gilydd.

Yr oedd weth troi tua'i hen gartref ers wythnosau bellach i wylio wrth erchwyn gwely angau'i thad, a hithau'i hun yn blaenu rhyw dridiau arno wedyn. Ni fum yn ei chwmni er yn ddiweddar yn yr hydref ac erys atgof melys am y daith i Giliau yng nghwmni'r teulu bach. Hapus a siriol ydoedd ond yr oedd cysgod y cwmwl yn y llygad. Ni treuddwydiodd yr un ohonom na chaem gydgyfarfod mwy. Ffarweliasom ger Henllys—ffarwelio am ennyd, ie, ac am dragwyddoldeb. Barn ardal yw nad oedd hoffusach ac anwylach ŷmeriad yn Nyffryn Aeron a chenligenna'r dyffryn wrth y Rhyl am fynnu o'r dre honno roddi iddi ddaear bedd. Y mae wedi gwreiddio'n rhy ddwfn yn serch ardal fel na fedr Rhyl, nac angau nac amser ei chymryd oddiarnom.

Dalennau o'm Dyddiadur.

TALU dyled capel! Pa weinidog sydd na fu raid iddo, ryw adeg neu arall, fynd o dy i dy i "geinioca" tuag at dalu dyled capel? Ychydig iawn yw eu nifer; a gwyn fyd y gweinidog a fu mor ffodus a diang rhag gorfod mynd o hono trwy'r "purdan." Defnyddiai y gair "purdan" i ddisgrifio'r oruchwyliaeth am y rheswm mai dyna beth ydyw i fesur mawr iawn—purdan: tan ydyw a bura'r "ceiniocwr" o gryn lawer o ffol a choeg dybiau. Ie, gwyn ei fyd—ar un olwg, o leiaf. Eithr o edrych ar y mater o gyfeiriad arall, fe'm tueddir i ddywedyd, ymhellach, o pherthyn i swydd y "ceiniocwr" at dalu dyled capel ryw gymaint o'r annymunol, y perthyn iddi hefyd gryn dipyn o'r dymunol, yn wir, perthyn iddi, ar y cyfan, fwy o'r dymunol nag o'r annymunol. Nid gair a swn melys iddo yw'r gair "ceiniocwr": eithr nis defnyddiai yn ddiachos. Cofiai imi, pan oeddwn ar un o'm teithiau casglu (bu raid imi fynd drwy'r oruchwyliaeth deirgwaith neu bedair) fynd i dy neilltuol: ar ol dywedyd o honof fy neges, "O," ebe'r wreigan, "rych chi'n cinoca tipyn, odich chi." Syrthiodd yr ateb dipyn yn arw ar fy nghlustiau: a chan mai newyddian oeddwn fel casglwr, bum ymron rhoddi'r gorchwyl i fyny, heb fynd gam ymhellach. Na, nid gair dymunol yw'r gair "ceinioca": pair i'r "ceiniocwr," yn rhywfodd, deimlo'i hun yn rhyfeddol o fach.

Cyfeiriaf at "gasglu" at gapel neu eglwys am reswm neilltuol, sef, er galw o honof sylw at gynllun newydd o gasglu—newydd i

mi, o leiaf. Tybiodd un gweinidog a thipyn o dueddfryd dargan-fyddwr yn ei gyfansoddiad y gallai dalu dyled ei gapel heb orfod o hono fynd a'i gap (efallai y swnia'r gair het yn fwy urddasol i bregethwr) yn ei law o dy i dy. Beth, ynte, oedd y cynllun? Dim llai na chyhoeddi cyfrol o bregethau gan nifer o weinidogion, a rhoddi'r elw at yr amcan a nodwyd. Y mae'r llyfr yn y farchnad, bellach, er's yn agos i ddwy flynedd. A diddorol iawn a fyddai gwybodaeth parthed mesur y llwyddiant ariannol a goronodd yr anturiaeth feiddgar.

Dyma deitl y llyfr: "Llef y gwyliedydd, sef, 28 o bregethau gweinidogion yr Annibynwyr, ynghyd a phregeth ragarweiniol gan y Parch. Ben Davies, Pant-teg." Trwy garedigrwydd cyfaill, ac yntau'n Annibynnwr o'r Annibynwyr, y cefais y cyfle a'r fraint o ddyfod i adnabyddiaeth o'r llyfr a'i gynnwys. Nis enwaf, rhag iddo wrido o weld ei enw ar ddalen o fisolyn hereticaidd. Estynnodd y llyfr imi gyda thipyn o aidd cenhadwr a fynnai imi weld fy nghamsyniad, a throi'n Annibynnwr: eithr pe gwyddai'r cwbl, yr wyf eisoes gymaint o Annibynnwr ag yntau; ai Annibynnwr iach yn y ffydd, ynte i'r gwrthwyneb, ni fedraf ddywedyd. I mi, llyfr benthyg oedd y llyfr; ac ni pherthyn i mi'r anrhydedd, felly, o dalu am gymaint ag un "fricen" o'r capel rhag-grybwylliedig. Gan mai llyfr benthyg ydoedd, gobeithiaf na ddigwydd iddo'r un math ar dynged a syrth i ran llyfrau benthyg yn gyffredin—y caf ddigon o ras i'w ddychwelyd i'w berchennog yn amserol a dianaf. Wedi imi gwblhau ei ddarllen, dywedaf—na chefais gymaint blas ac adeiladaeth o ddarllen cyfrol o bregethau er's blynyddoedd. "Pregethir yma," ys dywed awdur y bregeth ragarweiniol, "gan weinidogion ieuainc a chanol oed ein Henwad (sef, yr Annibynwyr). Credwn fod yr hynaf o honynt yn y weinidogaeth er's deng mlynedd ar hugain, a deuir i lawr flwyddyn ar ol blwyddyn hyd at rai a ordeiniwyd yn gymharol ddiweddar, fel y ceir yma enghraifft go deg o bregethu ein Henwad yn ystod y chwarter cyntaf o'r ugeinfed ganrif."

Nid dymunol a fyddai nodi un neu ragor o'r pregethau fel yn teilyngu sylw arbennig. Diau, pe gwnawn hynny, yr edliwiai rhywun imi ddiffyg cymhwyster i feirniadu pregethau. Diau, hefyd, pe ceisid gan nifer o feirniaid pregethau i nodi allan y goreuon o honynt, na cheid odid ddau yn hollol unfarn. Y mae gan bobun o'r pregethwyr ei genadwri arbennig; ac nid cenadwri wedi colli'i blas oblegid henaint mo eiddo'r un ohonynt, eithr cenadwri addas i'n hamser ni—dechreu'r ail chwarter o'r ugeinfed ganrif. Ac ni chyfyd y darllenydd o un o honynt o'i sedd heb deimlo'r genadwri'n "gafael ynddo." Eithr gobeithiaf na ddeffry eiddigedd neb ohonynt oblegid dywedyd ohonof i'r bregeth rag-arweiniol apelio ataf gyda grym rhyfeddol—braidd na ddywedaf gyda grym eithriadol.

Ei hawdur, fel y sylwyd eisoes, yw'r Parch. Ben Davies, Pant-teg. Nid Ben Davies, Pant-teg, mo hono mwyach : y mae wedi tynnu ei gwys i'r dalar, ac wedi ymneilltuo i fwynhau tawelwch diwedydd bywyd. Boed ei ddiwedydd yn desog a chyfoethog o ddedwyddwch. Pregeth hynafgwr o ran blynyddoedd, felly, yw'r bregeth ; eithr o'i barnu o safbwynt arall, pregeth a nodweddir gan fesur mawr iawn o ffresni ieuenctid ydyw. Fe'm temtir i ddifynnu o honi ; eithr anodd iawn dewis lle mae cynifer o bethau gwerthfawr ; a phe gwnawn yr ymgais, diau y rhoddai'r "gwr a'r pensilau glas" atalfa arnaf.

Eithr er gwaethaf ofn y "bensil glas," ni fedrai ymatal rhag rhoddi un neu ddwy enghraifft a ddyry i'r darllenydd ryw syniad parthed rhediad, nid y bregeth gyntaf yn unig, ond eiddo pobun o honynt. "Cefndir arosol pregethu yw Duw, Crist, Enaid, Bywyd, Pechod, Cariad, Santeiddrwydd, Byd arall, Beibl. Tyf ein neges allan o gyfrinach y meysydd hyn. Y blaendir yw'r oes a'i phroblemau a'i phryderon a'i brwydrau—ymdaith fawr dynoliaeth dros faes amser tua thragwyddoldeb." Nid yn hawdd y gellir disgrifio diben pregethu yn well.

Fel y canlyn y dirwyn y bregeth i derfyn : "fe a y gyfrol hon eto yn hen yn ei thro. Daw un newydd yn ei lle. Gwelaf arwyddion bod pregethwr newydd gerllaw. A threiddia i lawr yn ddyfnach i'r galon ddynol, tarewir ar ffynhonnau newydd o oleuni, a rhedweliau newydd i nerthoedd ysbrydol i lifo hyd-ddynt. Daw ffurf newydd yn fuan eto ar y 'newyddion da.' Paid a mynd ymhell, ddarllenydd hoff. Aros yn ddigon agos i wrando'r llais newydd sydd gerllaw." Ie, "aros yn ddigon agos i wrando'r llais newydd sydd gerllaw" llais y proffwyd nas llyffetheirir gan hualau na chredo sefydlog nac enwadaeth gul. Onid hyn, wedi'r cwbl a ddywedir, ydyw un o anghenion pennaf y byd crefyddol heddiw ?

Y mae rhywbeth yn y syniad o gyhoeddi cyfrol o bregethau er talu dyled capel a apelia atat yn rymus iawn, gan ddeffro hynny o deimlad o ddigrifedd* y sydd yn fy natur. Gair "gwneud" yw'r gair digrifedd : o leiaf, nis caf yn un o'm geiriaduron. Swnia'n esmwyth ddigon—gryn lawer esmwythach na'r erthyl hagr "hiwmor" a ddefnyddir mor aml. Ond—i ddwyn hyn o lith i derfyn. Ni ddaw galw arnaf i fynd drwy'r oruchwyliaeth gasglu byth mwy ; y mae gofidiau casglu wedi diane o'm bywyd am byth. Eithr pe deuai galwad atat, yn hytrach na mynd o dy i dy, cyhoeddwn gyfrol o'm pregethau y collais gymaint o chwys meddwl cyn imi eu cael i rywfath ar ffurf. Ond—ie, ond—pwy a'i prynai ?

D.E.

---

* Beth am ddigrifwch ?

Llanw Dant.

"POPETH newydd dedwydd da," ie, ac yn myd gwyddor o bob byd! Y mae Psycho-analysis yn newydd o ran enw o leiaf ac er na ŵyr y dyn cyffredin mo'r termau newydd hyn, fe ŵyr labrwr am y peth. Tebig ydyw a phe doi meddyg gan alw anhwyldeb digon cyffredin ond poenus ar enw newydd spon. Ni ŵyr y claf mo'r enw na'r ystyr ond gŵyr am yr anhwyldeb—yn rhy dda hwyrach. Felly gyda'r meddwl. Rhennid y meddwl ymwybodol gan Freud yn dair haen. Arferwn siarad am haenau'r ddaear ac y mae'n gyfleus i son am haenau'r meddwl, er nad yw mewn lle, gan eu galw yn *feddwl ymwybodol* yn cynnwys popeth a wyr dyn ar y foment: y *cyn-ymwybodol*, popeth y sydd ym mhrofiad ac o fewn gwybodaeth a fedr dyn ei alw i gof pan fyn: a'r *anymwybodol*, y llyn du tywyll y sy'n llawn o ysbwriel ac ysgerbydau, popeth na fedr dyn mo'i wybod ond trwy rhyw ffyrdd cywrain ac annuniongyrchol. Y mae dau derm bwysig yn y wyddor hon y dylasem wybod rhywbeth amdanynt, o leiaf, er na cheisiaf i ond awgrymu eu hystyr. Gwyr pob un ohonom am y gwreiddyn gwyn yna y sydd yn ein trwblu mor aml yn yr ardd gan glymu am bopeth. Fe'i gelwir ambell dro yn Gwlwm Cariad ond fod ei afael yn llawer sicrach nag eiddo'r cwlwm hwnnw yn aml mewn cymdeithas heddiw. Dychmygwch felly rhyw glwm o syniadau a greddfau a chronfa o deimlad fel bwndel o Gwlwm Cariad wedi ymgasglu am ryw berson neu wrthrych. Pe bai'r bwndel hwn yn y meddwl ymwybodol fe berai boen parhaus ac oherwydd hynny fe geisir cael gwared ohono drwy ei daflu, fel y tetlir ysbwriel i lyn, i'r anymwybodol a chredwn y cawn ddiwedd arno drwy'i wasgu megis i'r gwaelod. Gelwir y clwm neu'r bwndel hwn yn *gomplex*. Yn ystod y rhyfel yr oeddem yn gyfarwydd a chlywed son o leiaf am y *mines* a digon o *charge* yndddynt i chwythu'r cyfan yn deilchion. Y mae *charge* o deimlad fel rhyw ynni ffrwydrol yn grymuso'r *complex*. Y *charge* o ynni ffrwydrol a elwir yn *libido*.

Syniad canolog y wyddor newydd hon yw y medr y charge yma ffrwydro gan aflonyddu'r is-ymwybyddiaeth fel y *mine* yn y mor a neb dim callach er hynny. Medr cwrs weithrediadau anymwybodol yn nyfnderoedd yr enaid achosi effeithiau annymunol mewn bywyd heb fod dyn yn gwybod dim amdanynt nac am eu natur ychwaith. Amcan psycho-analysis yw codir *mines*' yma—anfon *minesweepers* drwy fôr yr anymwybodol er codi'r complexes, y clymau, y mines hyn er iddynt beidio ffrwydro yn yr anymwybodol a pheri effaith annymunol. Diddorol a fuasai sylwi ar y llwybrau

dros y rhai y llithra'r anynnwybodol i'r wyneb ond nid dyna fy amcan i.

* * *

Yn fy amser yr wyf wedi eistedd mewn llu o gadeiriau, rhai'n galed ac eraill yn esmwyth ac addefaf fy mod yn hoffi cadair esmwyth gysurus. Rhoer cadair esmwyth, tân cysurus a llyfr newydd i mi a chaiff rewi a lluwcho wrth ei phleser heb i mi ymyrryd nac aflonyddu arni. Gwn beth yw eistedd am dair blynedd yng nghadair wichlyd Golygydd ond gwell gennyf eistedd yng nghadair wichlyd Golygydd am dair blynedd nag eistedd yng nghadair deintydd am dair munud, ond pam? Nid oes eisiau i mi eistedd ynddi ond am ennyd fer iawn cyn y bydd fy ngwallt fel arian byw. Nid oes an esboniad hyd y gwn i. Nid wyf gymaint mwy drwg fy ngoddef na'r mwyafrif. Nid wyf yn ofnus uwchlaw mesur ychwaith ac eto petrusaf ragor nag unwaith cyn eistedd ynddi. Chwarddaf am ben fy hun ond nid yw'r petruster ddim llai. Pwy ddydd eisteddwn ynddi—nid o'm bodd cofier, a fflachiodd rhyw oleuni ar y dirgelwch. Gobeithio fod y *complex*—y clwm rhyfedd hwnnw yn llawn o ofn ac arswyd wedi llithro o'r anynnwybodol i'r wyneb i beidio aflonyddu arnaf mwy. Nid oes gennyf ond esboniad Psycho-analysis arno. Pymtheg mlynedd ar hugain yn ol mewn ardal wledig heb ddeintydd a wyddai ddim am dynnu dannedd a heb *gas* na *chocaine* yr oedd gennyf gilddant yn gwnio beunydd. cilddant yn gwnio 'n debig i ciddo'r bardd.

> " Bwyall dicifl—ebill o dân
> Yn tyllu'r cilddant allan."

Nid oedd dim am dani ond ei dynnu ac wedi wythnos o wnio'n ddistop cuthum. Druan o honof! Tri chynnyg ar ddeg i'w gael allan ac *yntau* a'r *complex* yn aros ynof hyd y dydd hwn! Gellir bod yn berffaith sicr fy mod i'n ystyried y rhif 13 yn anlwcus! Meddylied unrhyw un am yr oruchwyliaeth honno, cofied am esboniad psycho-analysis ar yr ofn a'r arswyd fel *clwm* neu fwndel neu *fine* yn ffrwydro heb yn wybod imi bob tro ond odid yr af yn agos i gadair y deintydd a chredaf y ceir esboniad digon rhesymol ar y petruster a'r ofn y soniais amdano.

Nid yw hynyna ond gyda llaw. Eisteddwn yng nghadair y deintydd a'r complex yn ffrwydro'n ddiarwybod imi'n barhaus. Yr oedd pob nerf yn dyn fel tant telyn dydd Gwyl Dewi. Yr oeddent yn barod—yn boenus o barod i deligraffo i'r ymennydd y foment y doi rhyw neges i'r gynnydogaeth. Nid oedd hynyna ond mynd yn erbyn gofid ac nid oedd angen wedi i'r deintydd ddechreu tyllu'r dant. Sylwais droion ar y saer yn taradru'r pren

neu yn fwy cymwys i'm tyb i, y gof yn tyllu'r haearn oer. Yr wyf wedi gweld chwarelwr ynghrog wrth linyn a'i ebill a'i offer yn tyllu ochrau'r clogwyni. Nid oeddent ddim o'u cymharu a'r tyllu yn fy nant i. Bobol fach! Medrwn gyfrif bob tro er cyflymed y troai'r olwyn. Sefais lawer tro ar ben ffair ar bwys y peiriant hwnnw—os peiriant hefyd—"*Try your strength.*" Taro dyrnod a gordd a'r ergyd yn gyrru rhywbeth i ganu cloch o daro'n ddigon grymus. Felly yma. Yr oedd pob tro o'r taradr yn canu cloch yn fy mhen a byth yn methu. Carwn iddo fethu ambell dro er cael fy anadl. Yr own yn diolch am i rywbeth fynd allan o le cr imi gael hoe. Wedi tyllu a thyllu a chwithau yn tybio ei fod yn gweithio ar y *job* mewn talcen glo, dyma'r olwyn yn arafu a pheidio a chwithau'n diolch fod y gwaethaf drosodd o leiaf. Golchi'r twll a'i lanhau a'r teimlad ynoch fod rhyw gilfachau enfawr ac ofnadwy yng nghraidd yr hen ddant. Wrth ei fod yn chwythu awyr dwym drwyddo teimlech fod poethwynt yr haf yn chwarae drwy rhyw hen ogof a'r nerf yn teimlo'r gwahaniaeth rhwng yr oer a'r twym gan ddawnsio mewn llawenydd ond odid ond gwae fi! Ymhen ennyd a minnau a'm pen ar agor.—a'r tafod bach aflonydd yn troi a throsi ol a blaen ac nid gwaith bach ei chadw o'r ffordd. Y mae awydd arno yntau fynd am dro i chwilio ogof yr hen ddant ond ni thal iddo fynd weithian a'r deintydd yn dechreu'i lanw.

Rhyw lwchyn bach o aur a dyma'r gyrdd yn gweithio. Teimlwn bob ergyd a gwnawn fy llw y clywn *eco* pob dyrnod. Tybiwn fod y twll yn anmoddefol o fawr cyn y medrai gael lle i godi'r ordd. Cyfrifais bymtheg llwyth o aur a hanner dwsin o ergydion ar ben pob *load*. Dyna o leiaf gan ergyd a sicr fod yr hen gilddant a geisiwyd dynnu bymtheg mlynedd ar hugain yn ol yn sicrach heddiw yn ei le nag erioed. Teimlwn ei fod yn ceisio gyrru'r hen gilddant dros y golwg yn asgwrn fy ngen. Yr oedd rhyw cangderau diddiwedd i'w teimlo yng nghrombil yr hen ddant a dychmygwn fod y twll gymaint o faint a Chwarel Cwmrhys a'r deintydd nid yn unig yn gweithio ar bedwar talcen ond yn coedo'r top hefyd.

Ni ddywedaf ddim am y medr a'r grefft.

Trois adref. Edrychais yn y drych gan feddwl fod y dant i gyd o aur. Druan ohonof! Nid oedd yno ond ysmotyn bitw bach o aur cymaint a chlopa pin rhon hwyrach a minnau'n tybio fy mod wedi gwneud rhyw wrhydri diddiwedd wrth eistedd yn *weddol* dawel a chwysu'n diferu wrth lanw'r dant. Ni wn a fedr dant chwerthin ond credaf yn onest fod yr hen gilddant yma yn rhoi ambell ysbonc mewn llawenydd o hyd o wybod fod ganddo *leas* newydd ar ei fywyd o bymtheg mlynedd ar hugain o leiaf.

N. a N.

Priodas.

Ar yr 20fed o Chwefror, yng Nghapel Bwlchgwynt (M.C.), Tregaron, Mr. Evan Jones, o Barclays Bank, Merthyr Tydfil, gynt o Frongelyn, Cribyn, a Miss Mary Esta Jones, Y Fron, Tregaron. Gweinyddwyd gan y Parch. D. Jones, gweinidog Bwlchgwynt, ym mhresenoldeb y cofiedydd (Mr. E. Caron Evans). Pob llwyddiant a bawddfyd a ddilyno'r par ieuanc.

Marwgofion.

Tachwedd 11, yn 76 mlwydd oed, bu farw Margaret Evans, Pantrhewfawr, Dihewyd. Gwraig dda a thawel ydoedd ac yn aelod am flynyddoedd maith yng nghapel y Ciliau. Yr oedd yn barchus yn ei chymydogaeth ac iddi enw da am ei charedigrwydd. Y dydd Gwener dilynol daearwyd ei gweddillion marwol ym mynwent eglwys y Plwyf. Gwasanaethwyd yn y ty gan ei gweinidog y Parch. D. Conwil Evans, ac yn yr eglwys a glan y bedd gan Ficer y Plwyf. Cydymdeimlir a'r priod yn ei henaint ar dalar bywyd, a'r plant a'r perthynasau i gyd.

Ar yr 20fed o Ionawr, bu farw William John Richards, Frondes, Amanford, yn 24 oed, ar ol cystudd hir a chaled, a oddefwyd ganddo'n amyneddgar. Wyr ydoedd i Mr. a Mrs. Lewis, o'r lle uchod, mab i ferch iddynt. Collodd ei rieni pan yn ieuanc iawn; ond bu ei daid a'i nain yn lle rhieni iddo; a chafodd ef a'i chwiorydd bob gofal a thynerwch ganddynt. Nid oedd o gyfansoddiad cryf; collodd ei iechyd, a bu am beth amser yn Ysbyty Tregaron; er yr ymddangosai ar ddechreu ei aros yno fel yn gwella, eto, dros amser y bu'r gwelliant, a gorfu iddo ddychwelyd i Frondes tua thri mis yn ol. Dygwyd ei gorff i Gapelygroes y dydd Iau dilynol, i orffwys yn ymyl eiddo ei rieni a'i chwaer a pherthynasau eraill; a daeth nifer luosog iawn gydag ef fel arwydd o'u parch iddo. Gwasanaethwyd yn y ty cyn cychwyn gan y Parch. Ddr. Tegfan Davies a'r Parch. R. T. Evans (ei weinidog yn Ebenezer); ac yng Nghapelygroes gan y Parchn. R. T. Evans; Vaughan Pughe, Capel Seion a D. Evans. Yn ei anerchiad toddedig yn y Capel dug ei weinidog dystiolaeth uchel iddo fel dyn ieuanc o ddelfrydau uchel, o ysbryd lledneis a diymhongar, ac o rodiad cywir a glan, ac fel gweithiwr parod a ffyddlon yn ei Eglwys. Am flynyddoedd bu'n ysgrifennydd Dosbarth Ebenezer, Amanford; ac hefyd yn ysgrifennydd Ysgol Sul Bethel, Pantyffynnon; ac ni fu dim a fedrai ef yn ol o gyflawni ei ddyletswyddau. Amlwg ydoedd i anerchiad Mr. Evans adael argraff ddofn ar y gynnulleidfa oddiwrth y datganiad eithriadol o deimladol o'r hen emyn "O fryniau Caersalem" a'i dilynodd. Colled fawr yw colli dynion ieuainc o'r fath hyn megis ar drothwy bywyd; ond melys er hynny i'r perthynasau ydyw y gellir dwyn y fath dystiolaeth uchel a hyn iddo. Wrth gychwyn o'r capel tua'r gladdfa chwaraewyd y "Dead March" gan

Miss Jenkins, Blaenwaunuchaf, yn effeithiol iawn. Nerth a gaffo'r taid a'r nain a'r unig chwaer, ynghyd a'r perthynasau eraill, i alaru fel rhai a gobaith y cant gwrdd eto mewn gwlad well.

Chwefror 2, yn 50 mlwydd oed, wedi cystudd byr a chaled ar y diwedd bu farw Willie Davies, 6, Treherbert, Cwmanne. Mab ydoedd i Mr. David Davies, Rhoslwyn, Cwmanne—wyr i Deio'r Hwper a brawd y Parch. D. Rhoslwyn Davies. Nid oedd yn gryf o iechyd a blinid ef gan y fogfa ond nid oedd gymeriad mwy siriol a chysurus yn yr ardal. Yr oedd bob amser a gwen ar ei wyneb ac nid oedd ddichell yn ei galon. Claddwyd y dydd Mercher dilynol ym mynwent Brondeifi, a gwasanaethwyd gan y Gweinidog gyda chynorthwy caredig y Parch. Eurig Davies. Gadawodd weddw yn unig, tad oedrannûs, brodyr a chwaer mewn galar o'i golli.

Chwefror 11, yn 72 mlwydd oed, gyda'r ferch ym Mhonthenry, bu farw John Jones, gynt o Gwmfeithgen, Cwrtnewydd. Yr oedd wedi gadael yr ardal ers yn agos i ugain mlynedd. Nid oedd wedi mwynhau iechyd da er yr hydref ac ehedodd ymaith ar y dydd uchod. Yr oedd gan y cyfeillion ym Mhonthenry air da iddo fel cymydog diddan a charedig, ac fel gwr parod a chymwynasgar. Ar waethaf yr eira a'r lluwchau dygpwyd ei gorff adref i orwedd ym medd ei briod a oedd wedi blaenu flynyddoedd hir. Claddwyd ym mynwent Capel y Bryn, a gwasanaethwyd gan y Parch. T. Oswald Williams, M.A., Llanbedr. Gadawodd blant heblaw perthynasau eraill yn drist o'i golli.

Ar y 14eg o Chwefror, yn 73 oed, yn dra di-symwth, bu farw John Evans, Green Well, ger Llanbedr. Collodd ei briod tua dwy flynedd yn ol. Er na fu'n dda ei iechyd er tipyn o amser, eto daeth y terfyn yn sydyn. Gedy nifer luosog o blant ar ei ol, yr oll wedi tyfu i oedran aeddfed. Claddwyd ei weddillion ym mynwent Capelygroes y dydd Mawrth dilynol. Y Parch. Eirug Davies, B.A., B.D., Soar, Llanbedr, yn gwasanaethu.

Nodion yr Eglwysi.

URDD Y BENYWOD.—Y mae gwedd lewyrchus ar Urdd y Benywod ym Mrondeifi—yn rhifo dros hanner cant a cheir deg ar hugain yn bresennol ar gyfartaledd. Y mae'r dosbarth yn gwneud gwaith teilwng ac fe'u haddysgir mewn gwniadwaith etc., gan Mrs. Thomas, Brynmeddyg. Yn ystod y ddwy noson ddiweddaf cafwyd *demonstration on Cake icing, etc.*, gan Miss Cissie Evans, Coedmor Hall, Llanbedr. Yn ddiweddar hefyd anfonwyd parsel o ddillad o'r dosbarth i Gefncoed y Cymer ac yr oeddent yn ddiolchgar am danynt. Gobeithio fod eraill wedi cofio hefyd am y rhai sydd mewn eisiau.

LLWYDDIANT.—Llongyfarchwn Miss Dorothy Oliver, Blaeneinon ar ei llwyddiant yn pasio'r Arholiad am ganu'r berdoneg (Diploma of Associate of the London College of Music—A.L.C.M.) a hithau'n cael ei dysgu gan Mr. Hugh Hughes, Mus. Bac., L.R.A.M., A.R.C.M., Llanbedr.

Llongyfarchiadau hefyd i Miss Mary Davies, Glynteifi, Llanbedr ar basio arholiad mewn miwsig gydag anrhydedd.

PABI FFLANDRYS.

Deui di bob Tachwedd bellach,
I bob cwmwd yn y wlad ;—
Deui dros y culfor garw,
Draw o allfro'r gad.

Gwrid heulwenau hafau Fflandrys
Ar dy ruddiau welaf fi ;
O ! na chawn i y gyfrinach
Sy'n dy galon di.

Da y gwn mai ofer holi
Er fod gennyt yn ystor
Fil cyfrinach am anwyliaid
Sydd tuhwnt i'r mor.

Oni chaf i gân dy galon,
Fe gei aros yn y wlad,—
Tra ehedo nghalon innau
Draw i allfro'r gad.

Prengwyn. Ifan Jones.

BEDD-ARGRAFF.

Mor fyr a brau yw dyddiau einioes dyn ;
Cyrhaedda 'i nod heb wybod iddo ei hun ;
O'i gryd i'w fedd rhyw ddyrnfedd yw i gyd,
O lin ei fam rhydd gam i'r bythol fyd.

David Griffiths, (1818—96).
Rhydlwyd, Penbryn, Ceredigion.

Fe'm gorfodir bob moment i gydnabod tarddiad uwch i amgylchiadau na'r ewyllys sydd eiddof fi.

Da y dywedodd y foneddiges : Pan bair y bregeth i chwi deimlo y dylech wneud yn well, ac y gellwch wneud yn well, yr wyf yn ystyried honno yn bregeth dda.

Adran yr Ysgol Sul.

DALIER SYLW !

Dyddiad yr Arholiad.—Prynhawn Sadwrn olaf Mawrth, am 2 o'r gloch.

Arholwr.—Y Prifathro J. Park Davies, M.A. B.D. Caerfyrddin.

Maes Llafur.—Gwel Ymofynnydd Medi, 1928.

D. CONWIL EVANS,
Ysgrifennydd.

PERLAU MOLIANT (Hen Nodiant).

Disgwylir y bydd yr Argraffiad Hen Nodiant yn barod ddechreu Ebrill. Derbynir enwau y Tanysgrifwyr am dano yn awr. Gyrrer yr enwau, gyda Blaen-dâl, yn ddioed i

J. D. Lewis, Swyddfa'r Ymofynnydd, Llandysul.

Pris 7/6 ; trwy'r Post 7/11.

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

CYNHELIR

CYRDDAU CHWARTER

Y PASC

— YN —

RHYDYGWIN

Mawrth a Mercher, Ebrill 9 a 10, 1929.

Disgwylir Llywydd y Gymdeithas, Gweinidogion Morgannwg, a Gweinidogion Ceredigion i wasanaethu.

Ceir manylion pellach yn y Rhifyn nesaf.

E. O. JENKINS,
Ysgrifennydd.

J. D. Lewis, Argraffwyr, Gwasg Gomer, Llandysul.

Crown 8vo. Cloth 2/- net, Stiff Covers, 1/6 net.

THE AUTHOR OF

NEARER, MY GOD, TO THEE

(SARAH FLOWER ADAMS)

By H. W. STEPHENSON, M.A.

The illustrations include a reproduction in facsimile of the original M.S. of the hymn, "Nearer, my God, to Thee."

This Hymn, which first appeared in the Hymn Book of the South Place Unitarian Chapel, Finsbury, E.C., is more widely known than any other by a Unitarian writer. It is the expression of a faith that had endured many doubts and, at one time, seemed as though it would pass utterly away. This Memoir brings together all that is known of the life story of Mrs. Adams. Ministers and Teachers in Sunday Schools will do well to add it to the books already on their shelves; they will find it not only readable but useful as well.

Lindsey Press, 5 Essex Street, Strand, W.C. 2

YOUR CHILDREN'S EYESIGHT IS THEIR MOST VALUABLE POSSESSION.

If you have the slightest suspicion that your child is suffering in any degree from eye-strain, which may be indicated by headaches after a day at school, or by the child poring over a book with its head very close to the page, you should consult a qualified optician who will gladly offer you a candid opinion, and will most certainly not prescribe glasses unless absolutely necessary, after the most careful tests.

CECIL JONES, F.S.M.C., F.B.O.A., F.I.O. (London).

Is fully qualified to offer every service for the eyes at his sight-testing rooms, both at

26, Great Darkgate Street, Aberystwyth (Telephone 209)

And at JONES, JEWELLER, LLANDYSSUL.

:: Bradford House, Llandyssul ::

SPRING GOODS DAILY ARRIVING.

NEWEST GOODS IN LADIES', GENT'S and CHILDREN'S WEAR NOW IN STOCK.

MOURNING ORDERS IMMEDIATELY ATTENDED TO.

E. LLOYD JONES.